Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, Sir y Fflint) (Gwahardd Cerbydau a Beicwyr Dros Dro) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na 7 niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn caniatáu i waith cynnal a chadw cylchol gael ei wneud ar Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") ar Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, yn Sir y Fflint.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau, y codir arwyddion yn eu cylch, yn weithredol dros nos o 19:00 o'r gloch tan 07:00 o'r gloch ar 16/17 Mai 2012 a 14/15 Tachwedd 2012 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd a beiciwr rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn Disgrifir y llwybr amgen yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

Disgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol yn ystod y dyddiadau a bennir uchod yn unig. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 12 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

M D BURNELL
Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

Atodlen 1

Y darn hwnnw o brif gerbytffordd y gefnffordd, o'r enw Ffordd Osgoi'r Wyddgrug, yn Sir y Fflint, sy'n ymestyn o bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan New Brighton i gyfeiriad y de i bwynt wrth ei chyffordd â Chylchfan yr Wylfa.

Atodlen 2

Y llwybr amgen ar gyfer cerbydau a beicwyr sy'n teithio tua'r de fydd ymadael â'r gefnffordd drwy ail allanfa Cylchfan New Brighton i'r A5119. Parhau i Gylchfan y Garej a chymryd yr A541. Parhau i Gylchfan Tesco a chymryd yr allanfa gyntaf gan barhau i Gylchfan yr Wylfa ac ailymuno â'r gefnffordd.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

The A494 Trunk Road (Mold Bypass, Flintshire) (Temporary Prohibition of Vehicles and Cyclists) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to allow cyclic maintenance works to be undertaken on the Dolgellau – South of Birkenhead Trunk Road (A494) (hereinafter referred to as "the trunk road") at Mold Bypass, in the County of Flintshire.

It is expected that the prohibitions, which will be signed accordingly, will operate overnight from 19:00 hours until 07:00 hours on 16th/17th May 2012 and 14th/15th November 2012 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles and cyclists from proceeding in the length of the trunk road specified in Schedule 1 to this Notice. The alternative route will be as described in Schedule 2 to this Notice.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 12 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

M D BURNELL
Orders Branch, Transport
Welsh Government

SCHEDULES

Schedule 1

That length of the main carriageway of the trunk road, known as Mold Bypass, in the County of Flintshire, that extends from a point at its junction with New Brighton Roundabout in a southerly direction to a point at its junction with Wylfa Roundabout.

Schedule 2

The alternative route for southbound vehicles and cyclists will be to leave the trunk road via the second exit at New Brighton Roundabout onto the A5119. Proceed to The Garage Roundabout and take the A541. Proceed to the Tesco Roundabout and take the first exit and proceed to Wylfa Roundabout and rejoin the trunk road.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE